# Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

**Pecyn swydd**

**CYNHYRCHYDD DAN HYFFORDDIANT**

**Mehefin 2019**

## Am Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

Mae Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn sefydliad newydd sydd, yn ddiweddar, wedi cwblhau ei flwyddyn weithredol lawn gyntaf. Rydym yn sefydliad bychan dielw gaiff ei gefnogi gan nifer o gyllidwyr, yn cynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, yn ogystal â'r 22 Awdurdod Lleol Unedol ar draws Cymru. Ni sy'n gyfrifol am drosglwyddiad llwyddiannus ensembles cenedlaethol ieuenctid Cymru yn y celfyddydau, gan ddatblygu sgiliau pobl ifanc dawnus a thalentog o 16 - 22 oed. Yn ogystal, rydym yn cynnal nifer o brosiectau allgymorth i annog pobl ifanc o gefndiroedd amrywiol ledled Cymru i ymwneud â'n rhaglenni.

## Rôl y Swydd

Cynigir y swydd hon fel rhan o ymrwymiad Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru i annog mwy o bobl ifanc o amrywiol gefndiroedd i ystyried gyrfa yn y diwydiannau creadigol. Mae'r rôl Cynhyrchydd dan Hyfforddiant yn gytundeb cyfnod penodol tan ddiwedd mis Awst 2020 ac mae wedi ei anelu'n benodol at raddedigion diweddar o brifysgolion Cymru sydd o gefndiroedd incwm isel sy'n anelu i gychwyn gyrfa yn y celfyddydau.

Isod ceir rhywfaint o wybodaeth amdanom ni, am y rôl, cymhwysedd a sut i ymgeisio.

## Diwrnod ym mywyd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru

Byddi'n treulio dy ddiwrnod gwaith arferol yn aml-dasgio; o ateb ymholiadau dros y ffôn neu roi cefnogaeth weinyddol i dîm staff CCIC i baratoi cytundebau, trafod gyda phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Byddi hefyd yn helpu i gynhyrchu clyweliadau a chyrsiau preswyl blynyddol CCIC, gan gefnogi gwaith y prif-gynhyrchydd ar bob un. Neu efallai y byddi'n cefnogi ein gwaith allgymorth ledled Cymru, ar brosiectau sy'n ein helpu i ymgysylltu â mwy o bobl ifanc. Mae llawer o'r gwaith yn galw am feddwl dyfeisgar, gyda phwyslais mawr ar fanylion a'r gallu i gyfathrebu'n dda.

Bydd rhai dyddiau'n galw am reoli digwyddiadau hefyd, a gofynnir iti gynrychioli CCIC mewn cyfarfodydd a digwyddiadau. Rydym yn dîm o staff cadarnhaol, croesawus, sy'n gweithio'n galed. Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn cynnwys 4 aelod llawn amser a 2 aelod rhan amser. Mae rhai o rolau allweddol CCIC yn gweithio oriau hyblyg ac ar hyn o bryd mae gennym un aelod o'r tîm sydd wedi ei leoli yng Ngogledd Cymru. Ond byddwn yn cwrdd yn rheolaidd fel tîm i gynllunio a hyfforddi. Bydd y Cynhyrchydd dan Hyfforddiant yn helpu i reoli cyfathrebiadau mewnol yn ogystal â rhai allanol gyda'n pobl ifanc a rhanddeiliaid eraill.

Bydd dy swydd wedi ei lleoli yn ein swyddfeydd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, ond bydd angen iti deithio i rannau eraill o Gymru ar brydiau, er enghraifft yn ystod cyrsiau preswyl, clyweliadau a pherfformiadau. Darperir cludiant a llety ble fo angen.

**Amlinelliad o'r rôl**

| | |
|---|---|
| **Rôl:** | Cynhyrchydd dan Hyfforddiant (Cytundeb cyfnod penodol tan ddiwedd Awst 2020) |
| **Yn adrodd i:** | Byddi'n adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredol, ond cynhelir goruchwyliaeth dydd-i-ddydd gan aelodau eraill y tîm. |
| **Perthnasau allweddol:** | Tîm staff CCIC, cyfranogwyr, staff partneriaid trosglwyddo artistig, staff lleoliadau cyrsiau preswyl, staff lleoliadau'r daith, arweinyddion gwadd, artistiaid gwadd, tiwtoriaid, tîm technegol, tîm lles. |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr yr wythnos, o Ddydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 9 - 4.30 fel arfer, ond bydd CCIC yn gweithio'n aml ar y penwythnos yn ystod cyfnodau clyweliadau a chyrsiau preswyl. Cei amser i ffwrdd am unrhyw oramser y byddi'n ei weithio. |
| **Cyflog:** | £16,000 y flwyddyn, telir yn fisol |
| **Cytundeb:** | Mae hwn yn gytundeb cyfnod penodol am 12 mis |
| **Trosolwg o'r rôl:** | Mae hon yn rôl dan hyfforddiant fydd, ble fo'n bosibl, yn cael ei anelu tuag at ddatblygu dy set sgiliau a dy brofiad cyfredol yn ogystal â gweithio ar y meysydd hynny sydd ddim wedi eu datblygu gymaint ar hyn o bryd. Bydd disgwyl i'r cynhyrchydd dan hyfforddiant weithio yn y meysydd canlynol:<br>- Trosglwyddo gweithrediadol / cynhyrchu cyrsiau preswyl a phrosiectau<br>- Gweinyddu swyddfa<br>- Cynllunio a chyllidebu<br>- Marchnata<br>- Codi arian |

Mae'r rôl yn cynnwys:

- Gweithio gyda holl aelodau tîm CCIC i sicrhau bod y cwmni'n gweithredu mewn modd effeithiol ac effeithlon
- Darparu cefnogaeth weinyddol i holl aelodau tîm CCIC

- Cefnogi cyrsiau preswyl blynyddol, prosiectau, clyweliadau a pherfformiadau mewn modd gweithredol, ymarferol
- Cydlynu cynnwys digidol sy'n cyfleu taith cyfranogwyr, eu straeon a'r effaith gaiff gweithgarwch CCIC, trafod gyda staff a rhanddeiliaid allanol ar ddylunio, cynhyrchu a hybu'r cynnwys yma yn enwedig trwy'r cyfryngau cymdeithasol
- Gweithio gyda'r Cynhyrchydd Cynorthwyol ar ddiweddaru'r wefan, yn cynnwys darparu cynnwys fel bo angen
- Darparu adroddiadau ariannol ar ddyddiadau cytûn ar gyfer prosiectau / cyllidebau sydd wedi eu dirprwyo i ti
- Cefnogi codi arian trwy ddarparu gwybodaeth monitro a gwerthuso am brosiectau, niferoedd cyfranogwyr ac effaith
- Cyfrannu at gynllunio i'r dyfodol, cyllidebu a phrosesau, prosiectau a mentrau cwmni-cyfan eraill
- Cyfrannu at etheg gwaith tîm cyfan, ble mae pawb yn cyfrannu ac yn derbyn cyfrifoldeb am lwyddiant gweithgareddau'r sefydliad

**Gwybodaeth a Phrofiad:**

- Profiad o gyfleu gweledigaeth, prosiect neu nod mewn modd effeithlon i bobl eraill
- Profiad o greu a hyrwyddo cynnwys cyfathrebu digidol
- Sgiliau trefniadol sylweddol, wedi eu mireinio trwy gydlynu rhwng amrywiol bartneriaid neu brosiectau i sicrhau canlyniad llwyddiannus
- Profiad o weithio gydag eraill mewn amgylchedd prysur iawn er mwyn cyflawni canlyniadau llwyddiannus gyda'n gilydd

**CYMHWYSEDD A SUT I YMGEISIO**

**Cynhyrchydd dan Hyfforddiant**

Nid yw profiad gwaith yn hanfodol ar gyfer y swydd hon - mae gennym ddiddordeb yn dy botensial a'r profiadau eraill sydd gennyt allai dy wneud yn addas ar gyfer y rôl hon. Rydym yn chwilio am rywun sy'n frwdfrydig, ymroddedig, gydag egni ac ymrwymiad ac awydd i ddatblygu gyrfa yn y celfyddydau. Bydd angen iti feddu ar sgiliau llythrennedd cryf a bod yn gyfathrebwr gwych.

Fodd bynnag, mae meini prawf cymhwysedd penodol y bydd rhaid iti eu cyflawni. Bydd rhaid iti:

a) Fod wedi graddio o dy gwrs gradd cyntaf yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf h.y. **2017 neu 2018 yn unig** (nid oes lleiafswm gradd angenrheidiol) a;
b) Bod wedi derbyn benthyciad cynhaliaeth llawn trwy gydol cyfnod dy radd a bod â'r gwaith papur i gadarnhau hyn a;
c) Bod yn breswylydd amser llawn o'r DU.

I ymgeisio, anfon lythyr atom sydd ddim hirach na dwy ochr o un ddalen A4 NEU galli greu cais ar fideo o dy hun sydd ddim hwy na phum munud, a'i anfon atom drwy *Dropbox*, *Google drive* neu debyg. Mae'r naill ddull neu'r llall yn dderbyniol ac o'r un gwerth. Rydym eisiau cael syniad o dy gefndir a dy botensial yn hytrach na asesu dy gyflawniadau academaidd neu gyflogaeth.

Wrth ymgeisio, cofia ddweud wrthym:

- Pam dy fod eisiau'r rôl hon;
- Ble rwyt ti'n gobeithio bod mewn deng mlynedd;
- Pa sgiliau, gwybodaeth a phrofiadau sydd gennyt sy'n berthnasol i'r rôl yma (nid oes rhaid i'r rhain fod wedi eu hennill mewn sefyllfa gyflogaeth ffurfiol);
- Dy ddiddordebau ehangach
- Dy fanylion cyswllt

**Cofia wneud yn siŵr ein bod yn derbyn dy gais, yn un o'r ddau fformat, erbyn 5pm ar Ddydd Llun 22 Gorffennaf trwy ei anfon at nyaw@nyaw.co.uk. Os byddi angen mwy o wybodaeth cyn ymgeisio, mae croeso iti ein e-bostio ar yr un cyfeiriad e-bost.**

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus basio gwiriad DBS (y gwasanaeth datgelu a gwahardd) a darparu sgan digidol o'u cyfriflen cyllid i fyfyrwyr ar gyfer pob blwyddyn yn ogystal â thystiolaeth o'r flwyddyn iddynt raddio.

Efallai y byddwn yn cysylltu gyda thi am gyfweliad anffurfiol gyda dau aelod o staff CCIC. Byddwn hefyd angen gwybodaeth gyswllt ar gyfer dau berson all roi geirda ar dy ran yn seiliedig ar eu hadnabyddiaeth ohonot trwy gyflogaeth neu waith (rheolwr neu diwtor er enghraifft). Byddwn ond yn gofyn am y geirda hwn pan fyddwn am roi cynnig swydd pendant iti.

# National Youth Arts Wales

**Job pack**

## TRAINEE PRODUCER

**June 2019**

## About National Youth Arts Wales

National Youth Arts Wales is a new organisation which has just completed its first full year of operation. We are a small, not for profit organisation which is supported by a range of funders including Arts Council Wales as well as the 22 Unitary Local Authorities across Wales. We are responsible for the successful delivery of Wales' national youth ensembles in the arts, developing the skills of gifted and talented young people aged 16 – 22. In addition, we run a number of outreach projects to encourage young people from diverse backgrounds across Wales to engage in our programmes.

## Job Role

This post is offered as part of National Youth Arts Wales commitment to encouraging more young people from a diverse range of backgrounds to consider a career in the creative industries. The Trainee Producer role is a fixed term contract to the end of August 2020 and is aimed specifically at recent graduates from Welsh universities who are from low-income backgrounds looking to start a career in the arts.

Below is some information about us, about the role, eligibility and how you can apply.

## A day in the life at National Youth Arts Wales

You'll spend your daily life multi-tasking; from answering telephone enquiries or providing administrative support to the NYAW staff team to issuing contracts, liaising with young people engaged in our activity and using social media. You will also help produce the annual NYAW residencies and auditions, supporting the work of the lead producer on each. Or you could be supporting our outreach work across Wales, on projects that help us engage with more young people. Much of the work requires innovative thinking, with a strong attention to detail and the ability to communicate well.

Some days also involve event management, and you'll be asked to represent NYAW at meetings and events. We're a positive, hard-working, and welcoming staff team. The team is currently comprised of 4 full time and 2 part time members. Some key roles at NYAW work flexibly and we currently have one team member who is based in North Wales. But we meet regularly as a team for planning and training. The Trainee Producer will help manage internal communications as well as externally with our young people and other stakeholders.

You will be based at our current office space in Wales Millennium Centre however travel to other parts of Wales will be required on occasion, for example during residencies, auditions and performances. Transport and accommodation will be provided where necessary.

**Outline of role**

**Role:** Trainee Producer (Fixed term contract to end of August 2020)

**Reports to:** You will report to the CEO however day to day supervision will be from other team members.

**Key relationships:** NYAW staff team, participants, artistic delivery partner staff, residency venue staff, tour venue staff, guest conductors, guest artists, tutors, technical team, welfare team.

**Hours of work:** 35 hours per week, usually Monday to Friday between 9 – 4.30 however NYAW frequently operates at weekends during audition and residency periods. Time off is given for any overtime worked.

**Salary:** £16,000 per annum paid monthly

**Contract:** This is a 12-month, fixed term contract

**Overview of role:** This is a trainee role that, where possible, will be geared towards developing your existing experience and skill set as well as progressing those areas that are currently not as well developed. The trainee will be expected to work in the following areas:

- Operational delivery/producing residencies and projects
- Office Administration
- Planning and budgeting
- Marketing
- Fundraising

The role includes:

- Working with all members of the NYAW team to ensure the company operates in an effective and efficient way
- Providing administrative support to all members of the NYAW team
- Supporting annual residencies, projects, auditions and performances in a practical, hands-on way
- Coordinating digital content communicating participant journeys, stories and the impact within NYAW activity, liaising with staff and external stakeholders in the design, production and promotion of this content especially through social media

- Working with the Assistant Producer in keeping the website up to date including providing content as required
- Providing financial reporting to agreed timescales for projects / budgets which have been delegated to you
- Supporting fundraising by providing monitoring and evaluation information about projects, participant numbers and impact
- Contributing to future planning, budgeting and other company-wide processes, projects and initiatives
- Contribute to a team-based work-ethic where everyone contributes and takes responsibility for the success of the organisation's activities

**Knowledge and Experience:**

- Experience of effectively communicating a vision, project or goal to others
- Experience of creating and promoting digital communication content
- Increased organisational skills, honed by coordinating various partners or projects to create a successful outcome
- Experience of working with others in a fastmoving environment to collectively achieve successful outcomes

## ELIGIBILITY AND HOW TO APPLY

### Trainee Producer

Employment experience is not essential for this post – we are interested in your potential and your other experiences that might make you suitable for this role. We want someone who is enthusiastic, committed, with energy and passion and a desire to develop a career in the arts. You will need to have strong literacy skills and be an excellent communicator.

There are however specific eligibility criterion you must meet. You must have:

d) Graduated from your first degree in the last two years so **2017 or 2018 only** (no minimum grade is required) and;
e) Been in receipt of a full maintenance loan during the full period of your degree and have the paperwork to prove it and;
f) Be a full time UK resident.

In order to apply, please send us a covering letter no more than two sides of one A4 OR create a video application on yourself of no longer than five minutes, provided via Dropbox, Google drive or similar. Either means of applying is fine and of equal value. We want to get a sense of your background and potential rather than assessing your academic or employment achievements.

When applying, please tell us:

- Why you want this role;
- Where you aspire to be in ten years' time;
- What skills, knowledge and experiences you have that are relevant to this role (these do not have to be gained in a formal employment setting;
- Your wider interests
- Your contact details

**Please ensure that we receive your application in either format by 5pm on Monday 22 July by sending it to nyaw@nyaw.co.uk. If you need further information before applying, please feel free to email us on the same email address.**

The successful candidate will need to pass a DBS (disclosure and barring service) check and provide a digital scan of their student finance breakdown for each year as well as proof of year of graduation.

We may contact you for an informal interview with two members of the NYAW staff. We will also need contact information for two people who can provide references for you based on their knowledge of you through employment or work (a manager or tutor for example). We will only seek references when we are making a firm job offer.